

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2023 Rhif 154 (Cy. 23)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor
(Darpariaethau Ychwanegol ar
gyfer Diystyriadau Disgownt)
(Diwygio) (Cymru) 2023

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Rheoliadau 1992") o ran Cymru.

Mae adran 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn darparu bod pobl benodol yn cael eu diystyru wrth benderfynu pa un a yw annedd yn ddarostyngedig i ddisgownt ar swm y dreth gyngor sy'n daladwy. Mae'r dosbarthau o bobl sy'n cael eu diystyru wedi eu nodi yn Atodlen 1 i Ddeddf 1992 a rheoliad 5 o Reoliadau 1992.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 5(8) (Dosbarth H) o Reoliadau 1992 i ddarparu nad yw'r diystyriad presennol ond yn gymwys pan fo person sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan Gynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU yn preswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw.

Ystyriwyd cod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2023 Rhif 154 (Cy. 23)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor
(Darpariaethau Ychwanegol ar
gyfer Diystyriadau Disgownt)
(Diwygio) (Cymru) 2023

Gwnaed 14 Chwefror 2023

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 16 Chwefror 2023

Yn dod i rym 1 Ebrill 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 116(1)(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(2), a pharagraff 11 o Atodlen 1 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(3).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

-
- (1) *Gweler* y diffiniad o "prescribed".
- (2) 1992 p. 14; mae diwygiadau i adran 116 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
- (3) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Diwygiad i Reoliadau'r Dreth Gyngor
(Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau
Disgownt) 1992**

2. Yn rheoliad 5(8) (Dosbarth H) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992(1), ar y diwedd mewnosoder “where and for so long as the person resides with a sponsor under that scheme”.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
14 Chwefror 2023

(1) O.S. 1992/552, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/431 (Cy. 100) a 2022/722 (Cy. 160). Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.